Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Cynhyrchiant gwin y DU yn codi’n sylweddol yn 2025, yn ôl data newydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

## Data blynyddol ynghylch cynhyrchiant gwin (footnote 1)

| Cynhaeaf (‘vintage’) | Math o gynnyrch | Cyfaint gwin cadw (‘reserve’) melys | Cyfaint gwin rosé coch | Cyfaint gwin gwyn | Cyfaint gwin rosé coch amrywiaethol | Cyfaint gwin gwyn amrywiaethol | Cyfaint gwin rosé coch PGI | Cyfaint gwin gwyn PGI | Cyfaint gwin rosé coch PDO | Cyfaint gwin gwyn PDO | Cyfanswm y cyfaint |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2025** | Gwin y busnes ei hun | 0.00 | 5804.97 | 11633.42 | 1477.17 | 4231.65 | 524.80 | 1093.75 | 3661.69 | 40241.40 | 68668.85 |
| | Contract | 0.00 | 4848.01 | 15059.93 | 322.01 | 761.86 | 605.04 | 916.41 | 647.65 | 5238.6 | 28399.51 |
| | Wedi’i brynu i mewn | 0.00 | 2161.28 | 5119.76 | 801.2 | 1510.57 | 111.05 | 195.89 | 3636.46 | 13773.11 | 27309.32 |
| | Cyfansymiau | 0.00 | 12814.26 | 31813.11 | 2600.38 | 6504.08 | 1240.89 | 2206.05 | 7945.80 | 59253.11 | 124377.68 |
| %Gwyriad o’r flwyddyn flaenorol | | 0 | 82.40% | 131.62% | 89.42% | 112.62% | 52.32% | 53.78% | 73.77% | 23.28% | 55.32% |
| | | | | | | | | | | | |

Mae’r ffigurau’n dangos bod 124,377 hectolitr o win — sy’n cyfateb i dros 16.5 miliwn o boteli — wedi’u cynhyrchu ledled y DU yn 2025. Mae hyn yn adlewyrchu’r amodau tyfu rhagorol a brofwyd drwy gydol y flwyddyn a thwf parhaus diwydiant gwin sy’n ffynnu ledled y DU.

Gwelwyd twf arbennig o sylweddol ar gyfer gwin gwyn, gyda’r cyfaint cynhyrchu yn cynyddu mwy na 131% o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol, gan danlinellu cryfder cynhaeaf 2025.

Tyfodd nifer y gwinllannoedd a gofrestrwyd gyda’r ASB hefyd, gan gyrraedd 1,158 — cynnydd o 4.3% ers y flwyddyn flaenorol — gyda mwy na 10,000 o bobl bellach yn cael eu cyflogi ar draws y sector.

Mae diwydiant gwin y DU bellach gwerth hyd at tua £14 biliwn, sy’n cadarnhau ei statws fel diwydiant sy’n cyfrannu’n sylweddol at yr economi genedlaethol.

Mae cynhaeaf 2025 wedi cael ei ddathlu’n eang gan gynhyrchwyr ledled Cymru a Lloegr. Roedd y tywydd ffafriol drwy gydol y tymor tyfu wedi arwain at ansawdd ffrwythau rhagorol a chynnyrch (‘yield’) sydd heb fod mor uchel ers blynyddoedd lawer.

Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn hollol eithriadol ar gyfer gwin o Gymru a Lloegr, ac mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu pa mor bell mae'r diwydiant wedi dod. Ein rôl ni yw sicrhau bod y gwin sy'n cyrraedd defnyddwyr wedi'i labelu'n gywir a'i fod yn bodloni'r safonau gofynnol. Mae'r twf rydyn ni'n ei weld ar draws y diwydiant, o winllannoedd a warysau i gyfanwerthwyr a masnachwyr, yn gwneud ein gwaith yn bwysicach nag erioed.
Mark Dawson, Arweinydd y Tîm Arolygu Safonau Gwin yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rydyn ni'n croesawu ffigurau llawn yr ASB ynghylch cynaeafau. Maen nhw'n cadarnhau'r cynhaeaf o 16 miliwn o boteli gwnaethon ni ei nodi'r llynedd, ac mae ein hadroddiad ansoddol a meintiol manwl a lansiwyd heddiw yn rhoi'r holl fanylion. Mae ansawdd a graddfa cynhaeaf 2025 yn ein gwneud ni'n obeithiol iawn, ac rydyn ni'n cydnabod sgiliau sylweddol a gwaith caled y gwinllanwyr a gwneuthurwyr gwin, wrth iddynt sicrhau ail gynhaeaf mwyaf y DU.
Nicola Bates, Prif Weithredwr WineGB

1. Mae'r data hwn wedi'i gynhyrchu o broses Datgan Cynhyrchiant 2025. Casglwyd 237 o ymatebion a 4 achos o ddiffyg ymateb, sy'n golygu mai 98.31% yw'r gyfradd ymateb. Yn 2025, cyfanswm y cyfaint a gynhyrchwyd oedd 124377.68 hectolitr, sef 16,583,690 o boteli — cynnydd o 55% o'u cymharu â ffigurau cynhyrchu gwin 2024. Roedd cyfanswm o 1158 o winllannoedd wedi'u cofrestru gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn y DU — cynnydd o 4.3% (pob math o winllan: rhai masnachol, hobi, a segur). Roedd 779 (i fyny 5.8%) o winllannoedd masnachol. Roedd 190 (i fyny 2.7%) o windai masnachol gyda gwinwydd. Roedd 43 (i lawr -6.5%) o windai masnachol heb winwydd. Roedd 90 (i fyny 4.7%) o winllannoedd hobi. Roedd 56 (i fyny 9.8%) o winllannoedd segur. Cyfanswm y cynnydd o ran plannu gwinwydd oedd 2.99%. Roedd 4357.66 hectar o winwydd gweithredol (+15.79%). Roedd 533.04 hectar o winwydd nad oeddent yn gynhyrchiol — hynny yw, llai na 3 oed a heb eu cynaeafu (-45.69%). Roedd 67.73 hectar o winwydd segur (1.01%). Roedd 26.99 hectar o winwydd hobi (-7.06%).